| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd Pensiwn |
| **Dyddiad:** | 29/02/2024 |
| **Teitl:** | Hunan Wasanaeth Aelodau – Fy Mhensiwn Ar-lein |
| **Pwrpas:** | Arddangosiad o'r system i aelodau'r Bwrdd |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |

## **Hunan Wasanaeth Aelodau – Fy Mhensiwn Ar-lein**

Mae'r system Fy Mhensiwn Ar-lein wedi bod yn rhan hanfodol o wasanaethau a gynigir i aelodau'r cynllun pensiwn ers sawl blynedd erbyn hyn. Porth diogel ar ein safle we ydyw, sy'n galluogi aelodau i:

- Weld a diweddaru eu manylion personol a newid cyfeiriad.
- Cael gwybod faint y byddant yn ei dderbyn wrth ymddeol.
- Cyfrifo'r lwmp swm ychwanegol y gallent ei gymryd wrth ymddeol.
- Gweld hanes eu gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth sydd wedi'i drosglwyddo i mewn.
- Weld a diweddaru manylion buddiolwyr a enwebwyd.
- Gweld eu Datganiadau Buddion Blynyddol.
- Lawrlwytho dogfennau y mae'r gronfa wedi'u hanfon atynt e.e. slipiau pensiwn Pensiynwyr.
- Uwch lwytho dogfen i'r gronfa e.e. ffurflenni ymddeol.
- Anfon negeseuon diogel i'r gronfa.

Mae'r safle yn adnodd pwysig iawn i'r Gronfa Bensiwn gan ei fod yn galluogi aelodau i ddiweddaru manylion sylfaenol, megis cyfeiriadau a manylion enwebiad grant marwolaeth, a hefyd perfformio cyfrifiadau buddion ymddeol eu hunain. Mae hyn yn rhyddhau amser swyddogion y gronfa i wneud gwaith mwy heriol.

Mae'r system Fy Mhensiwn Ar-lein yn ei ffurf bresennol wedi bodoli am nifer o flynyddoedd ac yn seiliedig ar dechnoleg hen ffasiwn erbyn hyn. Mae nifer aelodau yn cael problemau mewngofnodi i'r safle ac mae hyn yn atal aelodau wneud defnydd llawn ohono.

## **Uwchraddio'r system**

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Heywood Pension Technologies (ein darparwr meddalwedd) wedi datblygu fersiwn newydd o'r safle Fy Mhensiwn Ar-lein. Fe lansiwyd y safle newydd yn fyw i gwsmeriaid diwedd 2023, ac rydym yn y broses o uwchraddio i'r safle newydd ar hyn o bryd.

Nid yn unig mae gan y datblygiad yma wedd hollol newydd, ond mae'r dechnoleg newydd a ddefnyddir yn golygu bod ymarferoldeb llawer gwell ar draws y wefan. Mae

diweddariadau pellach yn parhau i fod ar y gweill, gyda'r nod o ymgysylltu'n well â'r aelodau yn barhaus wrth graidd y prosiect. Mae rhai o brif ddatblygiadau'r safle yn cynnwys:

- Mewngofnodi symlach, heb fod angen enwau defnyddwyr a chwestiynau diogelwch. Gall aelodau ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost a'u cyfrinair i gael mynediad.
- Gwell diogelwch gyda dilysu 2 ffactor.
- Llywio a dylunio symlach wedi'u hadeiladu gyda defnyddwyr mewn golwg.
- Cynllunydd ymddeol.
- Fideos esboniadol personol ar gyfer pynciau cymhleth, e.e. datganiadau pensiwn blynyddol.
- System dilysu ID electroneg.

Mae'r Gronfa a Heywood wedi cynnal deialog agos drwy gydol y broses o roi'r wefan ar waith. Elfen hanfodol i Gronfa Bensiwn Gwynedd ydi sicrhau fod y safle newydd ar gael yn ddwyieithog, felly rydym wedi paratoi'r testun Gymraeg ar gyfer y safle ac wedi bod yn profi'r safle dros yr wythnosau diwethaf i sicrhau bod yr ochr Gymraeg yn edrych yn gywir. Y gobaith ydi bydd gweddill cronfeydd Cymru yn gallu manteisio ar y gwaith rydym wedi arwain arno mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg.

**<u>Arddangosiad o'r system</u>**

Rydym yn gobeithio lansio' r safle newydd i aelodau yn ganol fis Mawrth, ond gallwn roi rhagflas o'r system i aelodau'r bwrdd yn ystod y cyfarfod.